# <u>Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Glantwymyn 18.12.25</u>

**Neuadd Cymuned Glantwymyn am 7.30yh**

**19:891: Presennol:** Bedwyr Fychan (Cadeirydd), Huw Williams, Gareth Owen, Deryck Lewis, William Owen, Rhodri Wigley, Gwenfair Rhys-Davies, Sandra Evans (Clerc)

**19:892: Ymddiheuriadau**: Gwen Lloyd. Gareth Wyn Jones, Iwan Pughe Jones, Aled Griffiths, Paul Hughes, Glyn Jones, Dafydd Evans, Aeron Pughe

**19:893: Materion Personol: -**Dymunir gwellhad buan i Mr. Pughe Jones.

Anfonir cerdyn at Anne Cwmlline i gofio pawb ar y Cyngor ati.

**19:894: Datganiadau o ddiddordeb**:

**19:895: Cyflwyno a derbyn cofnodion Tachwedd 2025**. Nodwyd y dylid cywiro sillafu Gamffrwd.

Cynigiwyd bod y cofnodion yn iawn fel arall gan Huw Williams ac fe'i heiliwyd gan Gwenfair Rhys-Davies.

**19:896: Materion yn codi o'r cofnodion.** Nodwyd mai ar y bont yr oedd y dŵr yn cronni gan nid ger yr arhosfan bysys. (19:895)

**Adroddiad y Clerc- Powys**

Pryderon a fynegwyd i NMWNTRA - Diolch i Awi Williams am y wybodaeth a ganlyn:

Pont Cemaes SY20 8QP wedi cael ei bwrw eto – Mae'r Tîm Adeiladu wedi rhoi gorchymyn i'r Depot i drwsio'r wal.

Dŵr yn cronni ger eglwys Cemaes SY20 8QP – Mae tîm dylunio draeniau yng ngofal y broblem o hyd a bydd Awi yn edrych i mewn i'r cynnydd.

Nodwyd bod y dŵr yn cronni ar bont Comins sy'n peryglu'r plant sy'n gorfod camu i'r ffordd i'w osgoi. Mae llawer o 'r dŵr yn dod o'r ffordd dan y bont rheilffordd a'r arhosfan bysys. Bydd Awi yn edrych ar hwn a'i drafod gydag Aled o Gyngor Sir Powys cyn rhoi wyneb newydd ar y ffordd.

Cais am wyneb newydd ar y ffordd wrth bont Comins SY20 8LG Mae Awi'n ymddiheuro am godi gobeithio y byddai Llywodraeth Cymru'n adnewyddu wyneb y ffordd adeg y gwaith yn Nhalerddig – ni chafwyd yr arian ond mae dal ar restr NMWTRA.

Cadarnhawyd bod y Cyngor wedi caffael ciosg Darowen. Cysylltir â Chyngor Sir Powys i osod diffib ger polyn lamp yn Nhal-y -wern.

**19:897: Cynllunio: -**25/1733/FUL rhoi to ar sied/pit sillwair, Aberffrydlan, Llanwrin, Machynlleth, SY20 8NA. Cefnogodd y Cyngor y cais.

**19:898: Materion ariannol ac eitemau i'w talu**

- Cyflog y Clerc Mis Tachwedd (8) £313.30
- WR Partners £129.60 Cyflogres Tachwedd Anfoneb 232865
  Cynigiwyd talu'r rhain gan Huw Williams ac fe'i heiliwyd gan Rhodri Wigley a Gwenfair Rhys-Davies

- Derbyn y Cyfrifon ar gyfer Swyddfa Awdit Cymru Diolch i Mrs. Eirlys Pugh am wneud yr awdit mewnol. Cytunwyd bod popeth yn iawn ar y cyfan a derbyniwyd y Cyfrifon gan bawb yn unfrydol.
  Pwyntiau gweithredu yn seiliedig ar sylwadau 'r archwilydd mewnol yw: bod sieciau'n cael eu cyflwyno mewn trefn gronolegol yn y cyfarfodydd ac i'r banc yn brydlon, dylid neilltuo amser penodol ar gyfer arwyddo sieciau ddiwedd y cyfarfodydd gyda phob llofnodwr yn croesgyfeirio'r taliad gyda'r anfoneb cyn llofnodi. (Nodwyd bod un camgymeriad wedi digwydd mewn yn ystod 2024-2025. Dylid cyflwyno derbyniadau am unrhyw gostau.
  Derbyniwyd y cyfrifon gan Huw Williams ac fe'i heiliwyd gan Deryck Lewis a phawb.

**19:899: Polisi Hyfforddiant i Gynghorwyr a Swyddogion**. Cytunwyd ar bolisi sy'n cynnwys cynllun a gyflwynir fel rhan o Awdit 2024-2025 yn unol â'r gofynion cyffredinol. Bydd cadeirydd ac is-gadeirydd newydd yn derbyn hyfforddiant. Cyhoeddir rhestr Un llais Cymru a anfonir yn fisol i'r Cynghorwyr yn y cyfarfodydd hefyd. Anogir pawb i fynd ar gyrsiau a nodi'r cwrs mewn cyfarfod y Cyngor.

**19:900:** Trafod cylllideb a gosod praesept – Bydd y praesept yn cael ei drafod yn y cyfarfod nesaf gan fod nifer o gynghorwyr yn methu mynychu heno. Yn y cyfamser, gofynnir i bawb ystyried unrhyw wariant gofynnol ar gyfer y flwyddyn nesaf.

**19:901:** Gohebiaeth – ffordd gefn Abercegir – nodwyd bod Chris Lloyd, Cyngor Sir Powys wedi ymateb i'r llythyr oedd yn mynegi pryderon am y ffordd rhwng Abercegir a Phontdolgadfan.

**19:902: Adroddiadau'r Cynghorwyr** - Dim

**19:903: Ffyrdd a Phontydd**

- Halen i bob ardal – gofynnir eto
- Cemaes – 20 mya – gofynnir am ddiweddariad gan fod pryderon cynyddol am ddiogelwch plant ysgol adeg y bysys a defnyddwyr ffyrdd eraill.
- Manhole perygl – ymyl finiog ar ffordd gefn Abercegir ger Rhosilio (windpipe.painting.reeling.)

**19:904: Unrhyw fater arall -** Dim

Daeth y cyfarfod i ben am 8.45

Cynhelir y cyfarfod nesaf **22.1.26**

**Ymddiriedolaeth Melinau Gwynt Cemaes 18.12.25**

- **Urdd Maldwyn** - Penderfynwyd rhoi £500 tuag at gostau ar sail 120 o aelodau o ardal Glantwymyn.
- **Cytundeb EDF** – Derbyniwyd cytundeb draft. Gohiriwyd ymateb tan y cyfarfod nesaf. Daeth y cyfarfod i ben am 8.55